

MARDY-JONES, THOMAS ISAAC (1879 - 1970), economegydd a gwleidydd

Enw: Thomas Isaac Mardy-jones

Dyddiad geni: 1879

Dyddiad marw: 1970

Priod: Margaret Mardy-Jones (née Mordecai)

Rhiant: Gwen Jones

Rhiant: Thomas Isaac Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: economegydd a gwleidydd

Maes gweithgaredd: Economeg ac Arian; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: John Graham Jones

Ganwyd yn 1879 yn fab i Thomas Isaac a Gwen Jones, Brynaman, Sir Gaerfyrddin. Lladdwyd ei dad a'i ddau dad-cu mewn damwain mewn pwl glo. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol y bwrdd, Ferndale, a dechreuodd weithio yno mewn pwl glo yn 12 mlwydd oed. Bu'n rhaid iddo gynnal teulu o chwech ar ei gyflog. Manteisiodd ar y cyfle i astudio hanes gwleidyddol ac economaidd yng Ngholeg Ruskin, Rhydychen, am 2 fl., ac, ar ôl iddo ddychwelyd i dde Cymru, gweithredodd fel 'cenhadwr' ar ran y coleg a llwyddodd i berswadio Ffederasiwn Glowyr De Cymru i sefydlu deg ysgoloriaeth i alluogi glowyr i fynychu cyrsiau'r coleg. Bu hefyd yn ddarlithydd ar ran y Blaid Lafur Annibynnol yn ne Cymru. Dyrchafwyd ef i swydd checkweighman yn 1907. Cafodd ddamwain i'w lygad y flwyddyn ganlynol, ac yn 1909 penodwyd ef yn gynrychiolydd seneddol gan Ffederasiwn Glowyr De Cymru. Rhoddodd sylw arbennig i weithgareddau llywodraeth leol a'r gyfundrefn drethi.

Etholwyd ef yn aelod seneddol (Llafur) dros etholaeth Pontypridd mewn is-etholiad yng Ngorffennaf 1922 pan orchfygodd y Rhyddfrydwr T. A. Lewis. Daliodd i gynrychioli'r etholaeth hon hyd 1931 ac ymgartrefodd yn 16 Llantwit Road, Pontypridd. Ymwelodd â'r India yn 1927. Ymddiswyddodd yn Chwefror 1931 pan gafodd ei gyhuddo o ganiatâu i'w wraig ddefnyddio'i docyn aelod seneddol ar y rheilffyrdd. Safodd fel ymgeisydd Llafur annibynnol ym Mhontypridd yn etholiad cyffredinol Hydref 1931, ond 1110 o bleidleisiau yn unig a gafodd.

Mynychodd nifer o gyrsiau astudio yn yr India, y Dwyrain Canol a De Affrica rhwng 1928 ac 1946. Gwasanaethodd fel swyddog staffio'r Weinyddiaeth Gyflenwi yn 1942-44, a bu'n Swyddog Addysg a Lles dros y lluoedd arfog Prydeinig yn y Dwyrain Canol rhwng 1945 ac 1946. Daeth yn ddarlithydd cyhoeddus poblogaidd ar faterion tramor ac arbenigai ar India a'r Dwyrain Canol. Etholwyd ef yn gymrawd o'r Gymdeithas Economaidd Frenhinol a phenodwyd ef yn ddarlithydd swyddogol i'r Bwrdd Glo ar economeg y diwydiant glo. Lluniodd nifer o lyfrau ar waith llywodraeth leol a dulliau o ddiwygio'r gyfundrefn drethi, ac yn eu plith *Character, coal and corn - the roots of British power* (1949) ac *India as a future world power* (1952).

Priododd yn 1911 Margaret, merch John Moredecai, Saint Hilari, y Bont-faen, Morgannwg. Bu iddynt ddwy ferch. Cytunodd ef a'i wraig i ymwahanu ym Medi 1933. Bu farw 26 Awst 1970 yn ysbyty Harold Wood, Essex, yn 90 mlwydd oed.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Dod's Parliamentary Companion

The Times, 27 Awst 1970

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [1845150264369605860009](https://viaf.org/viaf/1845150264369605860009)

Wikidata: [Q7791002](https://www.wikidata.org/wiki/Q7791002)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

